

Cynllun Gweithredu Heatherwood Court ar gyfer y materion a oedd yn peri pryder yn dilyn arolygiad AGIC ar 4 a 5 Mawrth 2013.

Pryder	Camau Gweithredu	Unigolyn(ion) sy'n Gyfrifol am eu gweithredu	Amserlen	Statws
<p>1. Roedd yn ymddangos bod nifer o benderfyniadau'n fypwyol ac wedi eu gorfodi ar yr holl gleifion. Nid oedd gan yr un claf allwedd i'w hystafelloedd gwely na chypyrddau byrbrydau. Hefyd, rhoddwyd swm penodol o laeth i'r cleifion bob dydd ac roedd sesiynau maldodi cleifion wedi dod i ben. Dylai penderfyniadau gael eu seilio ar risg ac anghenion canfyddedig cleifion nid ar un dull ar gyfer pawb.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd allwedd i ystafelloedd gwely'n cael eu darparu ar sail asesiad risg unigol. Trafodir, adolygir a chofnodir hwn yng nghyfarfod misol y tîm amlddisgyblaethol.</li> <li>• Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddarparu cypyrddau byrbrydau unigol yn y gegin. Bydd hyn yn galluogi'r cleifion i'w defnyddio ar sail asesiad risg unigol.</li> <li>• Mae amserlenni priodol ar gyfer pob unigolyn i'w gweld yn eu ffeiliau.</li> <li>• Darperir llaeth ychwanegol yn unol ag angen y claf neu pan fyddant yn gofyn amdano.</li> </ul>	<p>Clinigydd Cyfrifol y cleifion a'r Tîm Amlddisgyblaethol</p> <p>Y Rheolwr Cofrestredig a'r Rheolwr Cyffredinol</p> <p>Arweinwyr yr Unedau Y Rheolwr Arlwyo</p>	<p>Mehefin 28 2013</p> <p>Mehefin 28 2013</p> <p>Wythnosol</p> <p>Yn ôl y gofyn</p>	<p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
<p>2. Roedd y system galw nyrs wedi ei diffodd yn ystafelloedd gwely dau glaf ar ward Chepstow. Ni ddylid diffodd y system galw nyrs.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw hwn yn arfer cyffredin ac mae hyn wedi ei bwysleisio wrth y tîm staff. Roedd un wedi ei diffodd gan fod y claf wedi gofyn i hynny ddigwydd. Nid yw larymau'r nyrsys yn cael eu diffodd bellach. Sicrheir hyn bob dydd.</li> </ul>	<p>Arweinydd yr Uned</p>	<p>Archwiliadau dyddiol</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>3. Roedd nifer o'r paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion ar ward Chepstow a ward Caernarfon yn y safle agored. Rhaid i baneli arsylwi yn nrysau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd y paneli arsylwi ar agor yn yr ystafelloedd gwely lle nad oedd neb yn aros ynddynt ar y pryd. Maent yn cael eu cau pan fydd claf yn yr ystafell. Er hyn, mae'r staff wedi eu hatgoffa bod angen cau'r paneli hyn bob amser a dim ond eu hagor pan fydd angen sicrhau bod claf yn</li> </ul>	<p>Arweinydd yr Uned</p>	<p>Dyddiol</p>	<p>Cwblhawyd</p>

ystafelloedd gwely'r cleifion gael eu cadw ar gau.	iawn. Mae hyn yn cael ei archwilio bob awr a'i gofnodi.			
4. Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei harddangos ar fyrddau gwyn yn swyddfa'r nyrsys ac roedd y cleifion yn gallu ei gweld drwy'r ffenestr. Rhaid diogelu gwybodaeth yr holl gleifion rhag i gleifion eraill allu ei darllen.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw'r wybodaeth ar y byrddau gwyn dan sylw bellach. Rydym wedi darparu byrddau gwybodaeth mewn mannau na ellir eu gweld/darllen o'r tu allan i'r swyddfa.</li> </ul>	Arweinydd yr uned	21/05/13	Cwblhawyd
5. Rhaid cynnal adolygiad o'r lefelau staffio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn cael eu darparu'n effeithiol i'r cleifion. Roedd gweithgareddau'r cleifion ac absenoldeb adran 17 wedi eu gohirio a/neu eu canslo oherwydd diffyg staff. Hefyd, roedd nyrs staff ar ward Caernarfon wedi gweithio sifft 24 awr. Mae hwn yn arfer annerbyniol ac mae'n gallu cael effaith sylweddol ar ddiogelwch y cleifion a'r staff.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae asesiad safonol i werthuso lefelau cymorth wedi ei gaffael o UDA, ac mae'n cael ei dreialu ar hyn o bryd mewn tri maes clinigol trwy'r adran seicoleg ar y cyd â'r Cyfarwyddwyr Gweithrediadau a Chlinigol. Disgwylir y canlyniadau erbyn diwedd mis Mehefin 2013. Nid yw'r arfer o weithio sifftiau 24 awr yn cael ei gefnogi gan reolwyr ac mae'r staff wedi cael cyfarwyddiadau yn unol â hynny. Mae lefelau staffio'n cael eu hadolygu'n lleol yn ddyddiol ac fe'u pennir ar sail anghenion y cleifion. Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol yn cyfarfod bob bore a thrafodir materion y cleifion. Mae hwn hefyd yn gyfle i newid y lefelau staffio er mwyn bodloni angen.</li> </ul>	Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Nyrsio  Tîm Amlddisgyblaethol	Diwedd mis Mehefin 2013	Parhaus
6. Trwy adolygu'r cwynion, nodwyd bod diffyg cludiant wedi arwain at ganslo gwyliau cleifion. Mae angen adolygu cludiant er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennym bum cerbyd ar gael ar gyfer yr ysbyty. Mae gennym fws mini hefyd y gellir ei ddefnyddio pan fo angen.</li> <li>Mae defnydd o'r cerbydau'n parhau i gael ei adolygu a bellach mae'n cynnwys darparu gwybodaeth am y defnydd misol</li> </ul>	Y Rheolwr Cofrestredig a'r Rheolwr Cyffredinol		Cwblhawyd ac yn parhau

	i'r Rheolwr Cofrestredig. Bydd hwn yn sail i benderfyniadau adolygu parhaus ynglŷn â'r defnydd o'r cerbydau.			
7. Rhaid i holl ddogfennau'r cleifion fod yn briodol a rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â dogfennau eraill er mwyn gallu creu proffil cynhwysfawr o'r claf. Nid oedd yn bosibl cysylltu'r asesiadau risg, y cynlluniau rheoli, y cynlluniau triniaeth a'r cynlluniau gofal yn rhwydd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae hyn yn cael ei archwilio'n fisol gan y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r ffeiliau bellach wedi eu cyfuno ac mae'r asesiadau risg a'r cynlluniau gofal yn gysylltiedig â'i gilydd.</li> </ul>	Tîm amlddisgyblaethol	Mai 2013	Cwblhawyd
8. Mae nifer o faterion y mae angen ymdrin â nhw mewn perthynas â chlaf SBW: <ol style="list-style-type: none"> <li>Roedd arogl wrin o ystafell SBW yn effeithio ar y claf yn yr ystafell drws nesaf.</li> <li>Trwy adolygu nodiadau SBW nodwyd nad oedd yn cytuno â'i chynllun gofal. Nid oedd yn amlwg beth oedd wedi digwydd o ganlyniad i hyn, felly roedd angen adolygu cynllun gofal SBW.</li> <li>Nid oedd cynllun gofal wedi ei sefydlu ynglŷn â mynediad i ystafell/rhan SBW. Nid yw hi'n gallu</li> </ol>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rhan SW wedi ei adnewyddu. Mae'r llawr wedi ei godi a llawr newydd wedi ei osod. Mae rota glanhau rheolaidd ar gyfer rheoli'r rhan hon.</li> <li>Mae adolygiad o'r cynlluniau gofal wedi ei gynnal. Pan fo cynlluniau gofal yn ofynnol ond bod y claf yn anghytuno â nhw, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Tîm Amlddisgyblaethol a'i drafod gydag eiriolwyr pan fyddant ar gael.</li> <li>Roedd gan SW gerdyn mynediad i ddefnyddio'r drws pryd bynnag yr oedd yn dymuno. Rydym bellach wedi disodli'r system fynediad hon gyda doler ar y drws. Nid oes angen cynllun gofal ar hyn</li> </ul>	<p>Cyfarwyddwr Ystadau</p> <p>Tîm Amlddisgyblaethol</p> <p>Cynnal a chadw</p>	<p>17 Mai 2013</p> <p>30 Mai 2013</p> <p>17 Mai 2013</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Parhaus</p> <p>Cwblhawyd</p>

<p>gadael ei hystafell wely'n annibynnol, felly mae'n ymddangos y gallai fod yn cael ei chadw ar wahân. Mae angen sefydlu cynllun gofal cadarn.</p> <p>ch. Llenwir cofnod cymorth dyddiol ar gyfer SBW, ond nid oedd yn eglur sut yr oedd y cofnod hwn yn cyd-fynd â'i chofnodion eraill. Dylid cynnal un system gynhwysfawr o gofnodion.</p>	<p>bellach.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Un cofnod yn unig a gedwir</li> </ul>	<p>Staff Nyrsio</p>		<p>Cwblhawyd a Pharhaus</p>
<p>9. Mae angen adolygu'r sgrïptiau ar gyfer claf RJ, ynglŷn ag ymddygiad ymosodol, gan y gellid eu hystyried yn gosb. Hefyd, roedd ei gynllun gofal iechyd o ansawdd gwael, yn benodol ynglŷn â'i anghenion iechyd a dulliau ataliol. Mae angen adolygu gwaith papur RJ ar unwaith.</p>	<p>Roedd RJ yn glaf o ysbyty LBC yng Nghasnewydd a dderbyniwyd ar 9 Chwefror 2013. Roedd y sgrïptiau wedi eu datblygu gan ei Dîm Amlddisgyblaethol blaenorol ac roeddynt yn cael eu gwerthuso yn ystod ei fis cyntaf yma. Diweddarwyd ei sgrïptiau ar ôl arolygiad AGIC. Hefyd, adolygwyd y sgrïptiau gan y Tîm Amlddisgyblaethol ar 16 Ebrill ac fe'u diweddarwyd i gynllun cefnogi ymddygiad cadarnhaol. Mae RJ wedi ei drosglwyddo yn ôl i ysbyty LBC gan mai lleoliad dros dro yn unig oedd hwn.</p>	<p>Tîm Amlddisgyblaethol Llanbedr Court.</p>	<p>Mawrth 2013 Diweddarwyd Ebrill 2013</p>	<p>Cwblhawyd Cwblhawyd</p>
<p>10. Nid yw gwasanaethau meddyg teulu yn cwmpasu 52 wythnos a hysbyswyd AGIC gan y darparwr cofrestredig bod adegau pan yr oeddynt o'r farn nad oedd</p>	<p>Mae'r gwasanaeth meddyg teulu dan gontract gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf. Roedd y ddarpariaeth ganddynt am 52 wythnos y flwyddyn. Bu problem o bryd i'w gilydd pan nad oedd meddyg teulu ar gael ar gyfer un o'r ddwy sesiwn yr wythnos sy'n rhan o'r contract ond</p>	<p>Cyfarwyddwr Meddygol a Phrif Weithredwr</p>	<p>1 Gorffennaf 2013</p>	<p>Parhaus</p>

<p>y gwasanaeth ar alwad wedi ymateb yn briodol. Mae trafodaethau rhwng Heatherwood a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cael eu cynnal a dylid cyflwyno adroddiad ynglŷn â chanlyniad y drafodaeth i AGIC o fewn 1 mis.</p>	<p>cynhaliwyd y gwasanaeth am 52 wythnos. Mae'r gwasanaeth ar alwad gyda'r nos wedi ei wrthod i ni. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi cynghori meddygon teulu nad oes raid iddynt ddarparu gwasanaeth ar alwad i ysbytai annibynnol. Oherwydd hyn, mae'r meddygon teulu yng Nghwm Taf wedi penderfynu na fyddant yn darparu'r gwasanaeth hwn i ysbytai diogelwch isel. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu cyflogi meddyg teulu'n uniongyrchol ar gyfer dau sesiwn yr wythnos ac mae IGP yn darparu meddyg teulu ar adeg gwyliau. Defnyddir Galw Iechyd Cymru gyda'r nos a thros y penwythnos yn ogystal â gwasanaeth Primecare Ysbyty Brenhinol Morgannwg neu trwy fynd i adran ddamweiniau ac argyfwng yr ysbyty.</p>			
<p>11. Nid oedd unrhyw ffonau talu ar gael ar y wardiau a chedwir ffonau symudol yn y dderbynfa. Mae cleifion yn cael defnyddio ffôn y ward ond mae'r gallu i'w ddefnyddio'n dibynnu'n llwyr ar y staff. Mae'n rhaid adolygu'r system hon er mwyn sicrhau bod lefel briodol o breifatrwydd ar gael ar gyfer y cleifion.</p>	<p>Roedd llinellau ffôn wedi eu gosod ond roeddynt wedi eu difrodi gan y cleifion. Maent wedi eu hailosod. Rydym wedi prynu ffonau sydd ar gael ar y wardiau ond gellir eu symud er mwyn sicrhau diogelwch y claf a diogelwch o ran gweithdrefnau a materion perthynol.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol</p>	<p>Mehefin 28 2013</p>	<p>Parhaus</p>

<p>12. Nid oedd digon o wybodaeth ar gyfer cleifion yn cael ei harddangos yn y wardiau. Yn benodol, gwybodaeth ynglŷn ag eiriolaeth, cwynion a gweithgareddau.</p>	<p>Mae hysbysiadau perthnasol wedi eu gosod yn yr unedau.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig ac arweinwyr yr unedau.</p>	<p>5 Mawrth 2013</p>	<p>Cwblhawyd.</p>
--	---	---	----------------------	-------------------